# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer 2022-23

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau

## 1. Aelodaeth y grŵp a Deiliaid Swyddi.

**Cadeirydd:** Delyth Jewell AS

**Aelodau**:

- Altaf Hussain AS
- Jayne Bryant AS
- Peredur Owen Griffiths AS

**Ysgrifennydd**: Dewi John (Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru)

**Aelodau Allanol**:

| **Enw:** | **Sefydliad:** |
|---|---|
| Heléna Herklots | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Rachel Bowen | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| David McKinney | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Amanda Everson | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru |
| Amanda Gallivan | Cyngor Abertawe |
| Andy Wallsgrove | Comisiynydd Plant Cymru |
| Carole Butler | Prifysgol Abertawe |
| Carole Maddock | Prifysgol Abertawe |
| Carole Phillips | Kidscape |
| Catrin Hedd Jones | Prifysgol Bangor |
| Ceri Cryer | Age Cymru |
| Chris Dunn | Diverse Cymru |
| Chris Thomas | COPA |
| Dan Townsend | Youth Cymru |
| Deborah Morgan | Prifysgol Abertawe |
| Dereck Roberts | NPC Cymru |
| Elisabeth Carney-Haworth | Silver Stories |
| Elizabeth Jones | Prifysgol Abertawe |
| Fayne Patten | Gofal a Thrwsio Cymru |
| Gino Parisi | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Heather Ferguson | Age Cymru |
| Jamie Smith | Cymdeithas Tai Hafod |
| Katie Howson | Prifysgol Abertawe |
| Katherine Algar-Skaife | Prifysgol Bangor |
| Laraine Bruce | ConneXions |
| Linda Jenkins | Cymdeithas Tai Hafod |
| Marie-Clare Hunter | Grŵp Cynghori ENRICH Cymru |
| Mike Rance | Cymdeithas Tai Hafod |
| Mirain Llwyd Roberts | Cyngor Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Neil Williams | Gofal a Thrwsio Cymru |
| Nia Richards | Tybed |
| Nina Finnigan | Strategaeth Bryncynon |
| Orla Tarn | NUS Cymru |
| Phoebe Brown | Caffi Trwsio Cymru |
| Ross Thomas | Tai Pawb |
| Sandy Clubb | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| Sharon Ford | Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Stephanie Green | Prifysgol Abertawe |
| Stephen Burke | United for All ages |
| Sue Egersdorff | Ready Generations |
| Tanya Strange | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Kathryn Morgan | Shared Lives Plus |
| Tom Magner | Carers World Radio |
| Andrea Nicholas-Jones | Action for Elders |
| Rhun Dafydd | Cronfa Gymunedol y Loteri |
| Alan Hatton-Yeo | Volunteering Matters Cymru |
| Tamasree Mukhopandhyay | Kiran UK |
| Harriet Wright-Nicholas | Senedd Ieuenctid Cymru |
| Harrison Williams | Senedd Ieuenctid Cymru |
| Ellis Peares | Senedd Ieuenctid Cymru |
| Rosemary Squires | Senedd Ieuenctid Cymru |

## 2. Cyfarfodydd Blaenorol y Grŵp 2022-23

### Cyfarfod Un

Dyddiad y Cyfarfod:

Yn bresennol:

| Enw: | Sefydliad: |
|---|---|
| Delyth Jewell | Senedd Cymru |
| Rhys Jackson | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Rachel Bowen | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| David McKinney | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Alistair Davey | Llywodraeth Cymru |
| Amanda Everson | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru |
| Andrew Pithouse | Llywodraeth Cymru |
| Catrin Hedd Jones | Prifysgol Bangor |
| Carole Maddock | Prifysgol Abertawe |
| Ceri Cryer | Age Cymru |
| Chris Dunn | Diverse Cymru |
| Chris Thomas | COPA |
| Deb Morgan | Prifysgol Abertawe |
| Dereck Roberts | NPC Cymru |
| Gethin Edwards | Llywodraeth Cymru |
| Elizabeth Jones | Prifysgol Abertawe |
| Harriet Wright-Nicholas | Senedd Ieuenctid Cymru |
| Jacob Prowely | Age Cymru |
| Julie Morgan | Senedd Cymru |
| Laraine Bruce | Connections yng Ngogledd Cymru |
| Mirain Llwyd Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Phoebe Brown | Caffi Trwsio Cymru |
| Rosemary Squires | Senedd Ieuenctid Cymru |
| Sharon Ford | Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Tom Magner | Carers World Live |

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn rhithiol ar Microsoft Teams, ac mae’r Cofnodion wedi’u cynnwys yn Atodiad 1.

**Crynodeb o’r Cyfathrebu**

Cynhaliodd y grŵp ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gwrandawodd ar gyflwyniad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, ar waith yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo undod a dealltwriaeth rhwng cenedlaethau.

**Cyfarfod Dau**

Dyddiad y Cyfarfod: 13 Mawrth 2023

Yn bresennol:

| **Enw:** | **Sefydliad:** |
|---|---|
| Delyth Jewell | Senedd Cymru |
| Dewi John | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Rachel Bowen | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Tim Crahart | Shared Lives Plus |
| Stephanie Green | Prifysgol Abertawe |
| Sue Egersdorff | Ready Generations |
| Neil Williams | Gofal a Thrwsio Cymru |
| Tom Magner | Carers World Radio |
| Andy Wallsgrove | Comisiynydd Plant Cymru |
| Marie-Clare Hunter | Grŵp Cynghori ENRICH Cymru |
| Carole Phillips | Kidscape |
| Deborah Morgan | Prifysgol Abertawe |
| Catrin Hedd Jones | Prifysgol Bangor |
| Elizabeth Jones | Prifysgol Abertawe |
| Sharon Ford | Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Eleri D'Arcy | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe |
| Mirain Llwyd Roberts | Cyngor Gwynedd |

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn rhithiol ar Microsoft Teams, ac mae'r Cofnodion wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

**Crynodeb o'r Cyfathrebu**

Trafododd yr aelodau Wythnos Ymwybyddiaeth Pontio'r Cenedlaethau 2023, atal cwympiadau a'r ffocws rhwng cenedlaethau ar atal cwympiadau.

**Cyfarfod Tri**

Dyddiad y Cyfarfod: 05 Mehefin 2023

Yn bresennol:

| **Enw:** | **Sefydliad:** |
|---|---|
| Delyth Jewell | Senedd Cymru |
| Dewi John | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Rachel Bowen | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| David McKinney | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Catrin Hedd Jones | Prifysgol Bangor |
| Chris Thomas | COPA |
| Dereck Robers | NPC Cymru |
| Heather Ferguson | Age Cymru |
| Rhian Angharad Morgan | Age Cymru |
| Hillary Edwards | Caffi Trwsio Cymru |
| Tim Crahart | Shared Lives Plus |
| Carole Maddock | Prifysgol Abertawe |
| Sharon Ford | Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Marie-Clare Hunter | Grŵp Cynghori ENRICH Cymru |
| Rhun Dafydd | Cronfa Gymunedol y Loteri |
| Mirain Llwyd Roberts | Cyngor Gwynedd |

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn rhithiol ar Microsoft Teams, ac mae'r Cofnodion wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

**Crynodeb o'r Cyfathrebu**

Cytunodd yr aelodau ar y cynllun gwaith yn y dyfodol ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau. Bydd y pynciau'n cynnwys:

- Cynhwysiant Cymdeithasol a Dinesig.
- Oedraniaeth/Oedraniaeth yn y cyfryngau.
- Newid Hinsawdd.
- Cynnig Cymraeg 2050 i genedlaethau hŷn.

Mae manylion cyfarfodydd yn y dyfodol ar gyfer 2024 wedi'u nodi yn Atodiad 2 yn sgil cytuno ar y cynllun gwaith ar gyfer 2023-24.

## 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol.

[dylid cynnwys enwau lobïwyr/sefydliadau/elusennau fel a ganlyn, ee]

Enw'r Sefydliad:

- Canolfan am Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe
- Nufield Trust, Brosiect Heneiddio'n Iach y Cyngor Biofoeseg

Enw'r Grŵp:

Amh.

## Datganiad Ariannol Blynyddol

08 Medi 2023

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau**

**Cadeirydd:** Delyth Jewell AS

**Ysgrifennydd**: Dewi John (Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru)

| **Teitl** | **Disgrifiad** | **Swm** |
|---|---|---|
| Treuliau'r Grŵp | Dim. | £0.00 |
| Costau'r holl nwyddau | Ni phrynwyd unrhyw nwyddau. | £0.00 |
| Y buddion a gafodd y grŵp neu aelodau unigol gan gyrff allanol | Ni chafwyd unrhyw fuddion. | £0.00 |
| Unrhyw gymorth ariannol neu gymorth arall. | Ni chafwyd unrhyw gymorth ariannol. | £0.00 |
| **Cyfanswm** | | **£0.00** |

**Atodiad 1**: Cofnodion Cyfarfodydd 2022-23

Cyfarfod Un: **Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau – 14 Tachwedd 2022**

**Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniodd y grŵp gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Enwebu Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth**

Enwebwyd Delyth Jewell fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol gan Rhys Jackson – cymeradwywyd hyn gan y Grŵp heb ddim gwrthwynebiadau. Cafodd Jayne Bryant, Peredur Owen Griffiths ac Altaf Hussain eu henwebufel Is-gadeiryddion y Grŵp gan Delyth Jewell – cymeradwywyd hyn gan y Grŵp heb ddim gwrthwynebiadau.

Enwebodd Delyth Jewell Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol – cymeradwywyd hyn gan y Grŵp heb ddim gwrthwynebiadau.

Eiliodd Catrin Hedd Jones bob un o'r enwebiadau.

**Gwaith y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hybu undod a dealltwriaeth rhwng cenedlaethau – Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

Canmolodd Julie Morgan bwyslais y Grŵp Trawsbleidiol ar bontio'r cenedlaethau. Dywedodd fod hyn yn gallu digwydd ar sawl ffurf a bod ganddo nifer o fuddiannau i leihau rhagfarn ar sail oedran yn ogystal â gwella iechyd. Dywedodd fod hyn yn bwysig yn sgil y cynnydd mewn costau byw a'r rhyfel yn Wcráin. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru'n gweithio i greu cymunedau cryf a chydnerth sy'n defnyddio cryfderau pobl a thynnodd sylw at Cysylltu Cymunedau, eu Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd, a Chymru o Blaid Pobl Hŷn sydd wedi helpu i sbarduno hyn.

Fel rhan o strategaeth draws-lywodraethol Cysylltu Cymunedau, tynnodd Julie Morgan sylw at gronfa unigrwydd ac yn ysigrwydd tair blynedd i ariannu gweithgarwch cymunedol i wella galonogrwydd a chynaliadwyedd mudiadau llawr gwlad i â phobl o bob oed at ei gilydd. Dywedodd fod £1.5m wedi'u ddyrannu ledled Cymru rhwng 2021 a 2024 i alluogi Awdurdodau Lleol i weithio â Chynghorau Gwirfoddol Sirol i helpu mudiadau cymunedol. Dywedodd fod yr adroddiadau cychwynnol yn galonogol o ran sut mae'r arian wedi helpu. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn hir a bydd yn cael ei rannu â'r Grŵp Trawsbleidiol.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod ystadegau Arolwg Cenedlaethol yn dangos fod cydlyniant cymunedol yn gwella. Wrth weithio â chydweithwyr yng Ngwynedd, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi amlygu arferion da yn ystod yr Wythnos Fyd-eang Pontio'r Cenedlaethau, a oedd yn dangos ymagwedd Gymreig tuag at gydlyniant cymunedol. Tynnodd sylw at enghreifftiau a oedd wedi'u casglu ar dudalen benodol ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu fel porth ar gyfer popeth sy'n ymwneud â phontio'r cenedlaethau yng Nghymru.

O ganlyniad i dynnu sylw at yr arferion da hyn, dywedodd Julie Morgan fod Caffi Trwsio Cymru wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw mewn partneriaeth ag ysgolion lleol drwy sefydlu caffis trwsio yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Dywedodd fod y canolfannau hyn yn helpu am eu bod y llefydd lle gellir rhannu gwybodaeth ar hawliadau.

Dywedodd Julie Morgan fod Llywodraeth Cymru'n gweithio â phartneriaid i feithrin cysylltiadau cryf a pharhaol rhwng y rhai sy'n ymwneud â phrosiectau pontio'r cenedlaethau a'r rhai a all elwa arnynt am eu bod yn awyddus i ymgorffori'r arferion gweithio hyn mewn cymunedau.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod cyllid wedi'i ddarparu i sefydlu Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn sydd wedi golygu bod modd cael swyddog arweiniol ym mhob Awdurdod Lleol. Tynnodd sylw hefyd at waith y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (CPHC), Age Cymru a phartneriaid yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a'r celfyddydau i gydweithio i fapio ystod y gweithgarwch pontio'r cenedlaethau i weld beth yw ei fuddiannau. Dywedodd y bydd rhagor o'r gweithgarwch hwn yn parhau i gael ei ymgorffori mewn cymunedau a bod hyn yn cael effaith ar ansawdd bywyd mewn cymunedau. Cytunodd Delyth Jewell fod prosiectau pontio'r cenedlaethau'n dod â llawenydd i bobl ac mai rhan bwysig o waith y Grŵp Trawsbleidiol yw dathlu dysgu drwy gysylltiadau.

Holodd Catrin Hedd Jones y Dirprwy Weinidog ynglŷn â mapio gwaith pontio'r cenedlaethau a

phwy sy'n arwain y gwaith. Dywedodd Julie Morgan ei bod yn bwysig sicrhau bod unigolyn ym

mhob awdurdod lleol sy'n gweithio â phobl hŷn, a bod gwaith wedi'i wneud â CPHC i

gyflawni'r nod hwn. Dywedodd Gethin Edwards fod aelodau o Lywodraeth Cymru'n gweithio ar yr adroddiad a nododd bwysigrwydd grymuso swyddogion AFC i fynd allan a gweithio ar brosiectau potio'r cenedlaethau. Dywedodd Catrin Hedd Jones y gallai Byrddau Iechyd helpu â'r gwaith hwn.

Holodd Catrin Hedd Jones hefyd ynglŷn ag ymgorffori gwaith pontio'r cenedlaethau ar lefel genedlaethol, gan nodi'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar hyd a lled Cymru ond ei fod yn aml yn dameidiog. Dywedodd JM y bydd prosiectau mapio'n helpu â hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn ar gysylltiadau â gwaith arall, dywedodd Gethin Edwards fod y dudalen ar y wefan yn ffynhonnell gweithgarwch pontio'r cenedlaethau, a gofynnodd i aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newyddion sydd ganddynt yn y dyfodol. Mae dolen i'r wefan yma. Gofynnodd Delyth Jewell i aelodau gysylltu naill ai â hi neu Rhys Jackson os oes rhywbeth a ddylid ei rannu drwy'r wefan neu os oes rhagor o syniadau ar gyfer gwaith pontio'r cenedlaethau y dylai Llywodraeth Cymru edrych arno.

Pwysleisiodd Laraine Bruce bwysigrwydd dilyn siwrneiau unigolion. Cytunodd Julie Morgan, gan nodi fod ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y cyllid yn eang ei gwmpas o ran pwy sy'n cael eu helpu, a dywedodd mai dyma pam ei bod yn awyddus i gefnogi prosiectau llawr gwlad.

Holodd Marie-Clare Hunter am y posibilrwydd o godi cyfyngiadau oedran yr agenda dysgu gydol oes. Dywedodd Julie Morgan y bydd hi a Gethin Edwards yn adrodd yn ôl ar hyn i Lywodraeth Cymru, gan nodi bod hwn yn fater i'r Gweinidog Cyflogaeth ac Addysg. Dywedodd Gethin Edwards y byddai'n croesawu rhagor o wybodaeth am hyn. Bydd Maire-Clare Hunter yn anfon unrhyw wybodaeth bellach ar ei chwestiwn at Delyth Jewell a Rhys Jackson.

Tynnodd Tim Crahart sylw at lansiad y trydydd peilot Homeshare yng Nghymru, a gofynnodd i'r Dirprwy Weinidog a hoffai weld rhagor o'r modelau byw hyn sy'n pontio'r cenedlaethau. Dywedodd Julie Morgan ei bod o blaid Homeshare, gan nodi ei hymddangosiad mewn lansiad blaenorol.

Diolchodd Delyth Jewell i'r Dirprwy Weinidog a'i swyddogion am eu presenoldeb.

**Diweddariad ar y gystadleuaeth ffotograffiaeth i fynd i'r afael â rhagfarn ar sail oedran – Catrin Hedd Jones**

Cafwyd cefndir y gystadleuaeth ffotograffiaeth gan Catrin Hedd Jones, pan lansiwyd hi yn ystod Wythnos Fyd-eang Pontio'r Cenedlaethau 2022. Tynnodd sylw at y gwaith mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar faterion pontio'r cenedlaethau yn ogystal â'r gwaith arall sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Roedd yn dadlau na fu llawer o fuddsoddiad mewn gwaith pontio'r cenedlaethau o'i gymharu â'r Alban.

Aeth Catrin Hedd Jones ymlaen i dynnu sylw at ddigwyddiad yn y Senedd ar 15 Tachwedd a fydd yn cynnwys arddangosfa o ffotograffau o'r gystadleuaeth sydd â'r nod o hyrwyddo gwaith pontio'r cenedlaethau. Bydd yr arddangosfa wedyn yn mynd ar daith o amgylch amgueddfeydd cenedlaethol Cymru. Bydd CHJ yn rhannu'r lluniau a dyddiadau'r daith.

**Unrhyw Fater Arall**

Atgoffwyd y grŵp gan Tom Magner i gysylltu ag ef os oes ganddynt unrhyw newyddion a fyddai'n addas ar gyfer Carers World Live. Gellir cysylltu â Tom Magner drwy anfon e-bost inews@carersworldlive.co.uk.

Tynnodd Deb Morgan sylw at brosiect ymchwil pontio'r cenedlaethol sy'n edrych ar newid yn yr hinsawdd o safbwynt pontio'r cenedlaethau, gan ychwanegu y byddant yn gweithio mewn safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ffermio gwledig, a chartrefi gofal arfordirol. Dywedodd y byddai'n hapus i sgwrsio â'r grŵp am y prosiect. Dywedodd Deb Morgan y bydd yn rhannu mwy o wybodaeth am y gwaith cyn gynted ag y bydd ar gael.

Holodd Chris Thomas am y Ganolfan Gwaith Pontio'r Cenedlaethau, gan ofyn pam nad oes gan Gymru un yn awr. Dywedodd Catrin Hedd Jones ei bod wedi cael ei

hariannu am dair blynedd a bod yr arian wedi dod i ben. Dywedodd fod llawer o wledydd eraill wedi gwneud cynnydd ac wedi cael cefnogaeth gan eu llywodraethau ond bod Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar gynhyrchu adroddiadau a strategaethau.

Soniodd Rachel Bowen am brosiect o Brifysgol Stirling o'r enw Reimagining the Future in Older Age sydd wedi'i seilio ar syniadau heriol nad yw pobl hŷn yn cael cymaint o le yn y dyfodol. Mae pecyn cymorth ar arferion gorau mewn gwaith pontio'r cenedlaethau ar gael yma. Hefyd, mae adroddiad arall sy'n gwneud cysylltiad penodol rhwng cysyniadau pontio'r cenedlaethau ac oedran gyfeillgar mewn ecosystemau byw ar gael yma.

Gofynnodd Delyth Jewell a hoffai'r grŵp ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i osod heriau pontio'r cenedlaethau a'r hyn yr hoffai weld Llywodraeth Cymru'n ei wneud. Roedd y grŵp yn hapus i edrych ar y syniad hwn. Gofynnodd Delyth Jewell i'r grŵp a oedd rhywun a hoffai wneud y gwaith hwn, ac i gysylltu â hi drwy e-bost.

Cyfarfod Dau: **Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau – 13 Mawrth 2023**

**Croeso a Chyflwyniadau - Delyth Jewell AS**

Croesawodd Delyth Jewell aelodau'r grŵp a chyflwynodd aelodau newydd i'r grŵp.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cymeradwyodd y grŵp y cofnodion. O ran llythyr at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, yn nodi materion yr hoffai'r grŵp eu codi, gofynnwyd i'r aelodau anfon materion at Dewi John i'w llunio.

**Rhannu Siwrne**

Eitem wedi'i gario drosodd i'r cyfarfod nesaf.

**Homeshare UK**

Esboniodd Tim Crahart fod Homeshare UK yn fodel sy'n pontio'r cenedlaethau, lle mae dau berson yn rhannu eu bywydau gyda'i gilydd. Bydd y broses rhannu cartref

yn digwydd rhwng person hŷn sy'n chwilio am gefnogaeth neu gyfeillgarwch lefel isel a pherson ifanc sy'n chwilio am rywle i fyw.

Nododd Tim fod y cynllun wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer tri pheilot ledled Cymru, sef:

- Abertawe (Cydlynir gan Ruth Robinson)
- Sir Benfro (Cydlynir gan Dean Flood)
- Sir Gâr (Cydlynir gan Richard Wyn Williams).

Mae'r broses baru'n cymryd amser a gall y bobl hŷn, a'u teuluoedd, gwrdd â'r ymgeisydd gymaint o weithiau ag y mae'r gwesteiwr yn gofyn amdano. Mae Homeshare UK hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd gael gwiriad DBS a gwiriad geirdaon.

Gofynnodd Marie Clare a oedd Homeshare UK wedi ystyried gweithio gyda chanolfannau cymunedol a/neu grefyddol yn enwedig y rhai ar gyfer pobl sy'n perthyn i leiafrifoedd ethnig/cymdeithasol i ystyried paru ffoaduriaid a myfyrwyr rhyngwladol i aelwydydd hŷn o gefndir tebyg.

Eglurodd Mirain Llwyd Roberts fod hyn yn rhywbeth y maent yn ei wneud fel rhan o gynllun peilot Gwynedd, a'u bod eisoes wedi cael sgyrsiau gyda Phrifysgol Bangor a bod prosiect cefnogi ffoaduriaid ar waith yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Esboniodd Tim Crahart fod y cynllun yn eithaf poblogaidd ymysg myfyrwyr rhyngwladol yn Lloegr oherwydd bod y myfyrwyr eisiau byw yn y gymuned ac ymarfer sgiliau iaith a bod Homeshare UK yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor ac Abertawe. Mae angen i fyfyrwyr rhyngwladol fod yn ofalus oherwydd amodau fisa a faint o oriau o gymorth y gallent eu darparu.

Esboniodd hefyd ei bod yn anoddach gweithio gyda cheiswyr lloches oherwydd yr hawl i dai. Ychwanegodd eu bod wedi gallu gweithio gyda ffoaduriaid Wcráin oherwydd bod ganddyn nhw fisâu.

O ran grwpiau crefyddol, dywedodd Tim fod cydlynydd Sir Benfro eisoes wedi bod yn gweithio gyda grwpiau crefyddol yn yr ardal.

Dywedodd Sue Egersdorff fod Edinburgh Garden Partners (Edinburgh Garden Partners) yn gwneud rhywbeth tebyg gyda gerddi lle mae pobl hŷn sydd eisiau

rhywun i gynnal eu gardd yn cael eu paru â phobl sydd eisiau rhandir ond sydd wedi methu cael un.

Gwahoddodd Delyth yr aelodau a fynychodd Gynhadledd Cenedlaethau'n Cydweithio i rannu gwybodaeth gyda'r grŵp. Gofynnodd hefyd i aelodau rannu straeon perthnasol o sefyllfaoedd byw rhwng cenedlaethau gyda Tim fel y gallai Homeshare UK eu dathlu a'u defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol.

**Wythnos Ryngwladol Pontio'r Cenedlaethau 2023**

Tynnodd Mirain Llwyd Roberts sylw at y ffaith y bydd Wythnos Ryngwladol Pontio'r Cenedlaethau 2023 yn cael ei chynnal rhwng 24 Ebrill a 30 Ebrill. Esboniodd fod pedwar aelod gweithredol sy'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiadau cysylltiedig ar gyfer yr wythnos ar draws y pedair gwlad.

Dywedodd Mirain fod angen ailgychwyn digwyddiadau pontio'r cenedlaethau ers Covid ledled y DU. Awgrymodd y gallai aelodau wneud hyn drwy gynnal, er enghraifft, bore coffi mewn ysgolion, cartrefi gofal neu leoliadau cymunedol i gael plant a phobl hŷn at ei gilydd, sy'n bwysig ar gyfer creu perthnasoedd traws-genhedlaeth gynnar.

Gofynnodd Mirain a all grwpiau gofrestru drwy glicio'r ddolen, fel y gall aelodau ddysgu mwy am sut y gallant gymryd rhan yn Wythnos Pontio'r Cenedlaethau Byd-eang 2023. Gofynnodd hefyd i aelodau gysylltu os oeddent yn adnabod pobl a allai oleuo adeiladau ar gyfer Wythnos Pontio'r Cenedlaethau Byd-eang.

Cynigiodd Sharon Ford gysylltu Mirain â'r Big Pit i oleuo'r ffrâm weindio.

Dywedodd Catrin Hedd Jones y bydd CADR yn ceisio cynnal gweminar ar-lein ac y bydd yn rhannu'r manylion gyda Dewi.

Esboniodd Mirain fod y bwrdd cynghori i greu safonau ar gyfer gwaith Pontio'r Cenedlaethau wedi cwrdd yng Nghynhadledd Cenedlaethau'n Cydweithio a dywedodd y byddai'r grŵp yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU. Anogodd Mirain unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan i anfon e-bost ati.

Cafwyd trafodaeth ar feysydd lle mae gwaith pontio'r cenedlaethau yn gryf a sut y gall hyn drosi i feysydd eraill, yn enwedig y rhai a allai fod â chysylltiad agosach â

thwf economaidd.  Mae gwaith ar gymunedau sy'n ystyriol o oedran a wneir mewn awdurdodau lleol yn gadarnhaol er bod mwy i'w wneud i chwalu seilos.

Gofynnodd Delyth Jewell i'r grŵp a oedd ganddynt unrhyw bwyntiau i'w codi ar fylchau traws-lywodraethol a thraws-adrannol a allai fod yn rhan o'r llythyr at y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Gofynnodd Delyth i Dewi John atgoffa pobl o'r llythyr cyn i'r cofnodion gael eu dosbarthu.

Gorffennodd Mirain trwy ofyn os oedd gan unrhyw un syniadau ar gyfer Wythnos Ryngwladol Pontio'r Cenedlaethau i gysylltu â hi (mirainllwydroberts@gwynedd.llyw.cymru).

Cafwyd trafodaeth bellach ar yr angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei hymchwil presennol ar fanteision gwaith rhwng y cenedlaethau.

Gallai cyrsiau coleg neu gynlluniau prentisiaeth sydd â charfan eang o fyfyrwyr o ran ystod oedran fod yn ffordd arall o gyfnewid gwybodaeth ar draws cenedlaethau. Gofynnodd Delyth a oedd gan unrhyw un wybodaeth am hyn i'w rannu gyda'r grŵp.

**Tasglu Atal Cwympiadau**

Dywedodd Neil Williams fod y Tasglu Atal Cwympiadau yn enghraifft dda o waith ymarferol sy'n pontio'r cenedlaethau, a thynnodd sylw at y ffaith y cynhelir Wythnos Ymwybyddiaeth o Gwympiadau rhwng 18 a 22 Medi.

Dywedodd Neil fod y tasglu wedi gwneud rhywfaint o waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'u bod wedi gwneud gwaith gydag ysgolion yn yr ardal. Dysgodd y disgyblion am y perygl o gwympo ac i drafod hyn gyda mamgu a thadcu. Tynnodd sylw at y ffaith bod 500 o blant ledled Caerdydd a'r Fro wedi ymuno yn 2022 a bod y thema yn ymwneud â gofalwyr.

Esboniodd Neil er gwaethaf cyfleoedd cyfyngedig yn 2022, gwelodd yr ymgyrch dri maes o lwyddiant yn Betsi Cadwaladr, Abertawe a Chaerdydd a'r Fro a bod y tasglu yn edrych i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans, Tân ac Achub a'r tywyswyr ar gyfer 2023.

**Grŵp Pontio'r Cenedlaethau Abertawe**

Tynnodd Eleri d'Arcy sylw at y gwaith pontio'r cenedlaethau yr oedd Abertawe wedi bod yn ei wneud drwy eu hofferyn safle trosedd i nodi risgiau cwympiadau gyda

phlant a phobl hŷn. Esboniodd fod miloedd o beryglon yn enwedig teganau, rygiau, a bagiau llaw er enghraifft. Nododd yr adborth bod gwaith safle'r drosedd yn effeithiol iawn ac fe'i defnyddiwyd ar draws CA2 ac roedd yn defnyddio Ras George ar gyfer CA1.

Dywedodd Delyth Jewell ei bod yn bwysig gweld syniadau ymarferol a pholisi gyda'i gilydd.

Ychwanegodd Sharon fod ei chydweithiwr Zoe yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau wedi bod yn cynnal sesiynau dawns eistedd gydag agenda atal cwympiadau 'Dawnsio er Iechyd' ac yr hoffent gynnwys hyn gyda grwpiau amgueddfeydd a grwpiau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Codwyd y mater ynghylch a allai hyn ddod yn fwy eang ac efallai cysylltu â gweithgarwch pontio'r cenedlaethau drwy gymorth parhaus a roddir i bobl sydd wedi colli hyder o ran symudedd i fynd allan am dro ac ati. Dywedodd Neil y gallan nhw gysylltu'r ymgyrch datgyflyru a'r ymgyrch Atal Cwympiadau i wella hyder. Ychwanegodd Rachel Bowen fod gan Abertawe eisoes daith gerdded sefydledig sy'n Gyfeillgar i Oedran.

Gofynnodd Delyth Jewell i Eleri rannu diweddariadau gwaith gyda Dewi John fel y gall rannu gyda'r grŵp.

**Unrhyw faterion eraill**

Gofynnodd Catrin a allai'r grŵp ailedrych ar y pedair blaenoriaeth wreiddiol, yn enwedig o ran oedraniaeth. Gofynnodd Delyth i Dewi John ailgylchredeg yr is-grwpiau a'r meysydd blaenoriaeth gyda'r grŵp a'i ychwanegu fel eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Bu'r grŵp hefyd yn trafod rhagfarn ar sail oedran yn y cyfryngau a chawsant eu synnu gan ddatblygiadau diweddar mewn cyhoeddiadau ledled y DU. Gofynnodd Delyth i'r grŵp nodi achosion penodol, a dywedodd y byddai hyn yn eitem yn y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser, dylid anfon enghreifftiau at Dewi i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.

Gwahoddodd Delyth Jewell unrhyw aelodau sydd â diddordeb mewn bod ar is-grŵp ar oedraniaeth i anfon e-bost at Dewi John.

**Diwedd a dyddiad y cyfarfod nesaf**

Diolchodd Delyth Jewell i'r aelodau am eu cyfraniadau. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **5 Mehefin rhwng 11yb - 12.30yp ar Microsoft Teams.** Gwahoddodd yr aelodau hefyd i anfon e-bost at Dewi os oedd ganddynt eitem i'w thrafod ar gyfer yr agenda nesaf.

Cyfarfod Tri: **Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau – 05 Mehefin 2023**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Delyth Jewell AS y cyfarfod ac eglurodd y byddai'r prif bwyslais ar ddiben y grŵp ar gyfer y dyfodol ac ar lunio blaengynllun gwaith.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Nodwyd a chytunwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Cytunodd yr aelodau. Nododd Heather Ferguson ei bod ers y cyfarfod diwethaf wedi ymgymryd â rôl cadeirydd y grŵp Atal Cwympiadau a gwahoddodd yr aelodau i gysylltu.

**Materion yn Codi – Gofod Trafod**

Bu aelodau'n rhannu diweddariadau:

Liz Jones – mae'r prosiect Troedrhiwfuwch yn dod i ben ac mae'r ardd wedi cael ei hadfer gyda murlun newydd wedi'i osod. Gwahoddodd Delyth Jewell a'r aelodau i fod yn bresennol yn yr agoriad am 3:30pm ar 6 Gorffennaf. Fel trosolwg byr o'r prosiect, eglurodd fod y pentref cyfan o dan orchymyn prynu gorfodol yn 1985-6 o ganlyniad i archwiliadau i'r tomennydd glo ar ôl trychineb Aberfan a bod yr ardd wedi'i chreu i nodi hanes y pentref.

Eglurodd Dereck Roberts fod NPC Cymru wedi cael ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a bod yr holl aelodau wedi'u hailethol. Bydd NPC Cymru yn canolbwyntio ar fynediad at ofal iechyd, gofal diwedd oes a gwasanaethau gofal a thrwsio. Yn ychwanegol at hyn bydd NPC ac NPC Cymru'n cynhyrchu maniffesto pensiynwyr ar gyfer etholiad cyffredinol 2024.

Dywedodd Deb Morgan ei bod wedi gweithio ar brosiect sy'n edrych ar dechnoleg ddigidol ac anghenion pobl hŷn, sy'n cael ei lansio'n ddiweddarach eleni. Mae Carol Maddock wedi bod yn gweithio â chartrefi gofal a grwpiau ieuenctid i gynhyrchu llyfr comig ar newid yn yr hinsawdd sy'n pontio'r cenedlaethau.

Llongyfarchodd Delyth Jewell Carol ar gynhyrchu'r llyfr a gwahoddodd Carol i'w gyflwyno i'r grŵp. Hefyd gwahoddodd Ellis Peares i weithio â Deb ar y llyfr. (d.j.morgan@swansea.ac.uk)

Bu Cartin Hedd Jones yn rhannu sgwrs a drefnwyd gan CADR ar ddod â chenedlaethau ynghyd.

Cafwyd diweddariad gan Dave McKinney ar yr hyn mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi bod yn ei wneud ar gymunedau oed-gyfeillgar. Eglurodd Dave fod mwy o awdurdodau lleol (Sir y Fflint ac Ynys Môn) yn ymuno â Rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar. Ychwanegodd hefyd y bydd swyddfa'r Comisiynydd yn cyhoeddi gwaith ar doiledau cyhoeddus yn ystod yr haf.

Dywedodd Tim Crahart fod Homeshare UK wedi trefnu digwyddiad ers y cyfarfod diwethaf i hyrwyddo cynlluniau peilot Homeshare UK yng Ngwynedd ac Abertawe. Dolenni at y digwyddiadau:

- Rydych yn adnabod rhywun sydd angen clywed am Homeshare yng Nghymru. Tocynnau Mercher 14 Mehefin 2023 am 12:00 | Eventbrite
- You already know someone who needs to hear about Homeshare in Wales Tickets, Wed 14 Jun 2023 at 12:00 | Eventbrite

Tynnodd Heather Ferguson sylw at waith Age Cymru ar fathodynnau glas sy'n cysylltu ag allgau digidol a mynediad at wasanaethau. Dywedodd Delyth Jewell fod hon wedi bod yn thema gyffredin yn niweddariadau aelodau sef bod technoleg yn arwain at fwlch rhwng pobl sy'n defnyddio technoleg a'r rhai nad ydynt a bod y bwlch yn tyfu wrth i gymdeithas symud ymlaen ac argymhellodd y gallai hyn fod yn rhan o'r blaengynllun gwaith.

Eglurodd Chris Thomas fod COPA hefyd yn edrych ar allgau digidol fel rhan o'i gynllun gwaith.

Dywedodd Ellis Peares ei fod yn mynd i gyflwyno datganiad 90 eiliad ar fynediad at ddiffibrilyddion mewn cydgyfarfod o Senedd Cymru ar ôl gweithio â Rhun ap Iorwerth AS a Mabon ap Gwynfor AS.

Roedd yn bwysig ehangu'r ddarpariaeth gan fod gan lawer o bobl resymau cudd pam y gallai fod angen diffibriliwr arnynt.

Rhannodd Cartin Hedd Jones ddolen i helpu â datganiad Ellis. Cynigiodd Heather gefnogaeth Age Cymru. Mynegodd bryderon hefyd ynglŷn ag iaith: mae llawer o ddynion dros eu 50au yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynrychioli a'u bod wedi mewnoli'r iaith negyddol a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig, fel cael eu disgrifio fel baich. Trafodwyd y pwnc iaith.

**Blaenoriaethau ôl-bandemig a diben y grŵp**

Eglurodd Delyth Jewell gan fod y grŵp wedi'i sefydlu yn ystod y pandemig, a bod blaenoriaethu bellach wedi newid. Awgrymodd y byddai'n gyfle da i gynhyrchu blaengynllun gwaith ar gyfer y grŵp ac agorodd yr eitem i aelodau i drafod pa themâu yr hoffent ganolbwyntio arnynt. Cytunodd y grŵp i ganolbwyntio ar y pedair thema ganlynol:

- Mynediad at wasanaethau
- Rhagfarn ar sail oedran/Rhagfarn ar sail oedran yn y cyfryngau
- Newid yn yr Hinsawdd
- Cynnwys Cymraeg 2050 ar gyfer cenedlaethau hŷn.

Eglurodd Delyth fod aelodau yn y cyfarfod diwethaf wedi crybwyll y cynnydd mewn rhagfarn ar sail oedran yn y cyfryngau a'r cynnydd mewn naratifau annymunol. Cytunodd yr aelodau yr hoffent edrych ar y mater hwn. Nododd Heather fod naratifau sy'n rhagfarnu ar sail oedran yn digwydd yn achos pobl iau hefyd.

Tynnodd Deb sylw ar erthygl yn y Telegraph ar gyfrifo faint o gyflogau pobl oedd yn mynd i ariannu budd-daliadau fel enghraifft o ennyn drwg deimlad rhwng y cenedlaethau. Cytunodd Deb ac eglurodd fod iaith fel hon wedi arwain at ganlyniadau go iawn.

Rhannodd Cartin Hedd Jones ddolen ar bwysigrwydd cyfraniad pobl hŷn at economi Cymru.

Bu'r grŵp yn trafod rhagfarn ar sail oedran yn y cyfryngau a'r diwydiant adloniant.

Roedd Dereck wedi cwyno'n ddiweddar i'r BBC am sylw mewn adroddiad ar bensiynau a'r clo triphlyg lle'r oeddent wedi defnyddio iaith a oedd yn awgrymu bod pobl hŷn yn dwyn arian oddi ar y cenedlaethau iau,

Gofynnwyd i aelodau anfon awgrymiadau at Dewi John ar gyfer pwyntiau trafod a chytunodd siaradwyr ar gyfer themâu'r grŵp â'r syniad.

Awgrymodd Heather Ferguson y dylai'r grŵp edrych ar fysiau: mae mynediad at fysiau'n mynd yn anodd ac mae'n bygwth gallu pobl hŷn i gyrraedd gweithgareddau cymdeithasol ac apwyntiadau gofal iechyd. Ychwanegodd Delyth Jewell fod mater mynediad yn bwysig a bod cysylltiad ag allgau digidol. Awgrymodd hynny fel edefyn.

Awgrymodd Marie-Clare y dylai Cymraeg 2050 fod yn thema: mae rhywbeth ar gael i bobl iau, ond nid i bobl hŷn. Cytunodd Delyth a'r aelodau.

Dywedodd Sharon Ford fod cludiant cyhoeddus hygyrch wedi bod yn thema a gododd yn gyson yn ystod ein hymgynghoriadau Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion – neu ei brinder. Mae llawer o bobl yn awyddus i ymweld ag amgueddfeydd, ond nid ydynt i gyd yn hawdd eu cyrraedd. Eglurodd hefyd nad yw Trafnidiaeth Gwasanaeth Brys Gwirfoddol (VEST) yng Nghaerdydd er enghraifft yn gallu derbyn

rhagor o archebion tan fis Tachwedd, a bod hynny'n creu rhwystr enfawr rhag ymgysylltu.

Awgrymodd Delyth fod y grŵp yn canolbwyntio ar fynediad at wasanaethau fel rhan o allgau cymdeithasol a dinesig. Cysylltodd hyn â newid yn yr hinsawdd gan y byddai diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn arwain at fwy o geir ar y ffyrdd. Gofynnodd a hoffai'r grŵp ychwanegu newid yn yr hinsawdd fel maes arall. Cytunodd yr aelodau.

Crynhodd Rachel Bowen yr hyn roedd y grŵp wedi cytuno arno a dywedodd y bydd yn gweithio â Dewi John i greu blaengynllun gwaith ar gyfer y grŵp y bydd yr aelodau'n cytuno arno.

**Nuffield Trust – Cyflwyniad ar Brosiect Heneiddio'n Iach y Cyngor Biofoeseg**

Cadwyd yr eitem hon yn ôl tan y cyfarfod nesaf.

**Unrhyw fater arall**

Gofynnodd Delyth Jewell i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw eitemau eraill i'w trafod. Holodd Catrin Hedd Jones am y llythyr at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Ni chafwyd dim cyfraniadau nac awgrymiadau ar gyfer y llythyr. Cytunodd Delyth i neilltuo 15 munud i edrych eto ar y mater yn y cyfarfod nesaf.

**Cloi a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Diolchodd Delyth Jewell i'r aelodau am eu cyfraniadau. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Dydd Llun, 9fed o Hydref 2023 **ar Microsoft Teams.**

**Atodiad 2**: Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

Nodir isod ddyddiadau cyfarfodydd 2024 a'r pynciau y byddant yn ymdrin â nhw o'r cynllun gwaith:

- 22 Ionawr 2024 (11:00-12:30) (Oedraniaeth)
- 16 Mai 2024 (16:30-18:00) (Newid Hinsawdd)
- 11 Tachwedd 2024 (11:00-12:50) (CCB/ Cymraeg 2050/ Cynllun gwaith ar gyfer y dyfodol)

Cynhelir yr holl gyfarfodydd hyn drwy Microsoft Teams.